## BANNAU

Mae llawer o'r enwau yma ar gyfer nodweddion a allai fod wedi cael eu heffeithio gan weithgaredd diwydiannol, ac oherwydd chwarela, nid ydynt yn debyg i'r nodweddion a oedd yn bresennol ar un adeg. Roedd y sgarpiau calchfaen yn nwydd defnyddiol wrth wneud dur ar un adeg a hefyd fel deunydd adeiladu cyffredinol.

**Cerrig Edmwnt SO 062191**
Enw personol yw Edmwnt, ceid Cefn Edmwnt ar ochr arall y mynydd.

**Cerrig y Llwyni SO 068128**
Lluosog *carreg* 'maen, craig' a lluosog *llwyn* 'perth, coedlan'. Ar un adeg yr oedd llawer mwy o goed ar y mynyddoedd.

**Y Chwar Mawr SO 195157**
Ystyr yr elfen *chwar* yw 'chwarel', dyma un man lle ddefnyddiwyd creigiau'r clogwyn calchfaen yn y diwydiannau a ddatblygwyd yn yr ardal.

**Clo Cadno SO 117164**
Tybed os llygriad y gair *clog* 'craig' sydd, yn hytrach na *clo* 'lock' + *cadno* 'llwynog'.

**Craig Cwareli SO 046200**
Mae'r enw ar y mapiau yn rhoi *craig* 'clogwyn' + *cwareli 'gweithfeydd maen',* fel enw ar fron uchel creigiog. Creigiau a oedd yn debyg i lefydd ble gasglwyd creigiau er mwyn adeiladu tai neu waliau. Os oeddynt yn casglu creigiau, y tebygrwydd yw mai o'r ceunant islaw yng Nghwm Cwareli (SO 055215) yn hytrach na'r man anghysbell mynyddig yma. Weithiau fe welir hoelion llusgo ar y llechweddi ble roeddynt wedi defnyddio slediau i lusgo'r creigiau lawr i'r dyffryn. Ond beth sydd o ddiddordeb yw'r enw ar fapiau 1832 yr AO, sef Cwm-gwr-helig, sydd yn rhoi *cwr* 'cornel, cil, ymyl' [yn treiglo i *gwr*] + *helig* (cyfystyr a helyg 'willow') fel enw'r cwm bychan.

**Craig Cwm Cynwyn SO 026206**
Mae ar ben eithaf y cafn dwfn ac fe'i henwir ar ôl y cwm a'r afon islaw.

**Craig Cwm Llwch SO 004215**
Unwaith eto mae clogwyn yn cael ei enwi ar ôl y cwm, nid y gair *llwch* 'pwdr' sydd, ond term hollol wahanol. Mae'r gair *llwch* 'pwll, llyn, cors, siglen' yn dangos yr un tarddiad a'r Hen Wyddeleg *loch* 'llyn'.

**Craig Cwm Oergwm SO 037200**
Dyffryn dwfn cysgodol, enwedig yn y gaeaf, felly mae'r *oer* + *cwm* yn ddisgrifydd da.

**Craig Cwm Sere SO 015214**
Clogwyn sydd wedi ei enwi ar ôl y cwm a'r afon Nant Sere.

**Craig Fan Ddu SO 017190**
*Craig* 'clogwyn' + Fan Ddu; ond nid oes unrhyw enw Fan Ddu yn agos at y bryn ar y mapiau. Yr unig enw a welir yw Cefn Cul enw sy'n cyfeirio at y gefnen sy'n ymuno â'r esgair anghysbell â Chorn Du.

**Craig Gwaun Taf SO 008204**
Craig uwchben y waun lle tardd yr Afon Taf. *Gwaun* 'uwchdir, rhosdir', Hen Gymraeg *guoun*, Cernyweg *goon*, Llydaweg *geun*.

Mynyddoedd.co.uk

**Craig Pwllfa SO 065204**
Y *pwllfa* 'hafn' yw'r cwm dwfn rhwng Cefn Bach a Chefn Edmwnt.

**Craig y Byllfa SO 006198**
Dyma ddyffryn dwfn arall, sef dyffryn Blaen Crew, mae'r termau *pyllfa, pwllfa* 'pant, pwll, ceunant' yn ddisgrifiadau addas.

**Craig y Castell SO 172167**
Tybed os clogwyn sy'n debyg i waliau hen *gastell* sydd; gair o'r Brythoneg **castellon* 'castle' neu, y Saesneg Canol *castel*.

**Craig y Ciliau SO 185161**
Lluosog y gair *cil* 'cilfach, cornel' yn y graig; ond, rhaid nodi mai unigol oedd yr enw yn wreiddiol ar fap AO 1832, fel Craig y cil le. Yn cyfeirio at y bwlch rhwng y creigiau i fyny at yr uwchdir.

**Craig y Fan SO 071199**
Nid *craig* 'clogwyn' ond llethrau serth iawn yn uchel uwchben Nant Tarthwynni.

**Cwalca SO 161174**
Llygredd o'r gair *gwalca*, sef lluosog *gwalc* 'ymyl, wal'; mae sgarp bach amlwg o graig ar draws y gefnen yn y fan.

**Cwar y Gigfran SO 064197**
*Cwar* yw'r gair cyntaf, sef benthyciad o'r Saesneg tafodiaethol *quar(r)* 'chwarel, pwll cerrig'; ond yn y gymraeg fe all y gair cwar ddynodi craig yn ei gyflwr naturiol. *Cigfran* 'bran mynydd'; Cernyweg *brân*. Ym mytholeg 'Geltaidd' cysylltid brain a chigfran â darogan a marwolaeth oherwydd eu lliw ai tueddiad i fwyta ysgerbydau.

**Y Darren SO 208152**
Pa un o ystyron y gair *tarren* sydd yma? Yn wreiddiol defnyddir y gair i ddisgrifio tir gwael, ac yng Ngogledd Cymru 'bryn serth, bryncyn, tir garw'. Yn y rhan yma o Dde Cymru mae *tarren* yn dynodi 'clogwyn, llechwedd serth, sgarp, bryn creigiog, craig', ond pa un sydd yn cael ei ddefnyddio yma.

**Y Darren Ciliau SO 201156**
Enw arall gyda luosog y gair *cil* i ddynodi 'cilfach, congl, cornel'; ond yma, mae'n yn debygol o fod yn gyfeiriad at y newidiadau yn onglau'r clogwyn a'r 'bylchau' sy'n caniatáu mynediad i'r rhostir uchod. Yn hwyrach, fe ddatblygwyd sawl chwarel yn yr ardal. Darren y cil le 1832 AO.

**Y Darren Clôg Fawr SO 110164**
Mae gan y *darren* 'clogwyn, tir garw' y gair *clôg* 'mantell' yn yr enw; fodd bynnag, mae'n debyg mai camgymeriad sydd; oherwydd mae'r mapiau cynnar yn cofnodi'r safle gyda'r gair *clog* 'clogwyn', sef enw'r fferm islaw.

**Y Darren Ddu SO 109156, SO 221130**
Unwaith eto ceir y gair du fel elfen yn y dirwedd. Yn y lleoliad gyntaf man tywyll yn yr ail enghraifft lliw'r graig.

**Y Darren Disgwylfa SO 218144**
Yn syml, ystyr *disgwylfa* 'gwylfa, lle i wylio, golwg', yw man i edrych allan; naill ai, safle bugeiliol neu amddiffynol. Y mae'r olygfa, uwch Y Fenni yn un da, mater hawdd i'w nodi unrhyw symudiad ar hyd y dyffrynnoedd.

Mynyddoedd.co.uk

**Y Darren Fach  SO 088164,  SO 019105**
Enw sydd yn gweithio mewn cymhariaeth i'r Darren Fawr cyfagos.

**Y Darren Fawr  SO 082164,  SO 022100**
Mae'r ddau yn gymharol fawr i'r ddau Darren Fach uchod.

**Gwalciau'r Cwm  SO 065160**
Lluosog y gair *gwalc* 'ymyl, trum, cefnen, mur'; benthyciad o'r Hen Saesneg *wealca* 'wave, billow'.

**Tarren Tormwnt  SO 044152**
*Tarren* 'tir garw' a enwi'r ar ôl y mynydd.

Mynyddoedd.co.uk